

## **CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS**

CLERC : John MacLennan, 19, Lôn Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffôn : 01745 826901 Svm : 07903328655  
e-bost : [johnmaclellan9@icloud.com](mailto:johnmaclellan9@icloud.com)

**MUNUDAUR CYFARFOD A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS AM 7.30.y.h. DDYDD LLUN, HYDREF 4ydd, 2021.**

1. **CROESO** - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **YN BRESENNOL** - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; John Evans; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. **YMDDIHEURIADAU** - yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Eifion Evans.

#### **4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffir aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hymny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolaethau a pholisïau cynllunio. Roedd y Cynghorwyr Irwedd Griffiths a John D.Roberts eisoes wedi datgelu diddordeb yn eitem 10.21/8(i) mewn cyfarfod blaenorol.

5. **MUNUDAU - PENDERFYNWYD** cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo mundau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Fedi 6ed, 2021.

#### **6. MATERION YN CODI -**

8.21/6(i) Mae cyflwr y gwrychoedd min ffordd yn yr ardal wledig yn warthus. Roedd y Cynghorydd Lloyd ac aelodau'n falch bod gwelliant i'w weld, a bod y contractwyr yn awr yn torri gwrychoedd.

7.21/14(i) Codi fferm wynt fawr ar dir uwchben Nant Ucha a Mynydd Du.

Cyfarfodydd cyhoeddus i'w cynnal i drafod y cais hwn. **PENDERFYNWYD** gofyn i Swyddogion Cwmni'r Fferm Wynt a'r Cyngor Sir i ddod i gyfarfod ym mis Medi neu Hydref. Dywedodd y Clerc ei fod wedi e-bostio tri aelod o'r cwmni sy'n gyfrifol am y cais hwn, ac nad oedd wedi derbyn ateb. Dywedodd y Cynghorydd Sir, Ifor Lloyd, ei fod yntau wedi ceisio cysylltu gyda'r cwmni, ond heb lwyddiant. Roedd o, serch hymny, wedi siarad gyda'r aelod dros Langernyw a oedd wedi trefnu iddyn nhw i ymweld â'r Cyngor. Awgrymodd y Cynghorydd Lloyd ei fod o'n gofyn a allai Betws a Llanelian fynd i'r cyfarfod ar Hydref 27ain, 2021. **CYTUNWYD** ar hyn gan bawb.

9.21/6(i) Gosod y plac ynghylch camp Ms Georgia Wilson. Dywedodd y Clerc ei fod wedi siarad gyda chyflenwr placiau lleol, a'i fod yn aros am bris terfynol amdano.

**7. CYLLID - PENDERFYNWYD NODI'r sefyllfa ariannol ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Fedi 21ain, 2021.**

Cyfrif cymunedol .....£8,667.79

Cyfrif busnes .....£5,551.32

**I GYMERADWYO'R FANTOLEN AR GYFER YR UN CYFNODAU. Fe gyflwynodd y Clerc y fantolen gyfrifon fisol. CYTUNWYD ARNI GAN BAWB.**

**8. GOHEBIAETH**

10.21/8(i) Llythyr wedi ei dderbyn gan Mr. H.G.Featherstonhaugh O.B.E.Roedd y Cynghorwyr Irwedd Griffiths a John D.Roberts wedi datgelu diddordeb yn y mater hwn mewn cyfarfod blaenorol. PENDERFYNWYD bod y llythyr hwn yn aros ar y ffeil.

10.21/8(ii) e-bost wedi ei anfon i Bute Energy ynghylch presenoldeb mewn cyfarfod Cyngor. Fe NODODD yr aelodau'r e-bost a anfonwyd i Bute Energy. Doedd y Clerc ddim wedi derbyn ateb. Gweler eitem 7.21/14(i) uchod.

10.21/8(iii) Llythyr gan Darren Millar AS ynghylch dod i gyfarfod Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr. Millar ynghylch dod i gyfarfod o'r Cyngor, yn arbennig felly gyda golwg ar y cais am y fferm wynt. Gweler eitem 7.21/14(i) uchod.

10.21/8(iv) Llythyr wedi ei dderbyn gan Mrs Jenni Frost, a'r ateb i'w ddilyn. NODWYD hyn gan yr aelodau.

**9. TALIADAU A DDERBYNIWYD. Fe NODWYD y taliad a enwir isod.**

10.21/9(i) Llog y banc .....£ 0.14

**10. TALIADAU ALLAN - PENDERFYNWYD TALU'r holl eitemau a restrir isod:-**

10.21/10(i) HMRC .....£ 71.81 - AS

10.21/10(ii) Cyflog y Clerc .....£ 287.23 - AS

10.21/10(iii) Cyfieithu .....(Hanner y gost) .....£ 18.00 - Siec 200119

**11. GRANTIAU - PENDERFYNWYD CANIATAU'r swm a restrir isod:-**

10.21/11(i) Apêl gan Tenovus Cancer Care.....£ 100.00 - Siec 200121

Dyweddodd y Clerc fod cais am £400 am dorri gwair ym mynwent Trofarth wedi ei dderbyn. Eglurodd aelodau fod nifer ohonynt wedi derbyn cwynion nad oedd gwair y fynwent wedi ei dorri, a bod mwy na £1200 yn eu cyfrif. Fe ofynnion nhw i'r Clerc ysgrifennu at Ysgrifennydd y sefydliad i ofyn pam ei bod felly, ac na fyddent hwy'n ystyried grant eleni.

**12. CYNLLUNIO**

9.21/12(ii) Creu ardal ymarfer a hyfforddi ceffylau ar gyfer defnydd personol yn Nhy'n y Coed, Ffordd Nentydd, Rhyd-y-Foel. **GOHIRIWYD** y mater oherwydd diffyg gwybodaeth ar y wefan. Roedd aelodau'n bryderus nad oedd ateb am fwy o wybodaeth wedi ei dderbyn gan Adran Gynllunio'r Cyngor Sir, a gofynnwyd am anfon llythyr o gwyn i'r Pennaeth Gwasanaeth.

10.21/12(i) 0/48856 Chwalu, ac ail-adeiladu neuadd y pentref yn Llanelian, gan ofalu bod toiled ar gyfer yr anabl, a gwell amodau mynediad i bawb ar gyfer defnyddio'r adeilad drwy gydol y flwyddyn. Mr Lewis Arnold. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

10.21/12(ii) 0/48943 Codi parlwr godro newydd ynghyd â thrac 295 metr newydd i'r safle, a lagŵn slyri llawr plastig ym Mhenoros, Trofarth, Abergele. Mr Huw Jones. **DIM GWRTHWYNEBIAD.**

**13. MATERION ARCHWILIO MEWNOL AC ALLANOL -** Dywedodd y Clerc fod Rheolaethau Archwilio Cymru'n gofyn am i gyhoeddiad Archwilio diweddar gael ei arddangos ar yr hysbysfyrddau ac ar y wefan gan nad oedd barn Archwiliad wedi ei dderbyn gan yr Archwiliwr Cyffredinol. **GWNAED** hyn.

**14. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD.**

Dyweddodd y Cyngorydd Lloyd fod gan y Cyngor Sir ddiffyg o £8 miliwn o bunnoedd eleni, ac y byddai hynny, o ganlyniad, yn effeithio ar wasanaethau. Am y tro cyntaf fe fyddai hyn yn cynnwys addysg. Fe fyddai'r toriad hwn yn gyfartal â 3% o'r cyllidion y flwyddyn nesaf. Fe hoffai'r Cyngorydd Lloyd hefyd anfon ei longyfarchiadau i breswylwyr Llanelian am gadw eu cymuned mor lân a thaclus.

**15. UNRHYW FATER ARALL**

10.21/15(i) Llythyr wedi ei anfon i Ms Georgia Wilson i'w llongyfarch ar ei champau anhygoel yng Ngemau Paralympaidd Tokyo 2021. **NODWYD** hyn gan aelodau a oedd yn hynod falch o lwyddiant Ms Wilson a'i cheffyl Sakura.

10.21/15(ii) Fe atgoffodd y Clerc yr aelodau y byddai'n rhaid edrych ar y Praesept yn y cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd, a gwneud penderfyniadau.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod fe orffennodd y cyfarfod am 9.20y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....

